

**Dosbarthiadau Meistr Mathemateg Cynradd Sefydliad Brenhinol Kantor,
Wedi'u Ffrydio'n Fyw i Ysgolion
ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i'w cynnal mis Mawrth, Ebrill a Mai 2022**

Annwyl Gydweithiwr,

Mae Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn falch iawn o gynnig Dosbarthiadau Meistr Mathemateg Cynradd ar y cyd â'r Sefydliad Brenhinol (Ri), a gefnogir yn garedig gan Kantor. Nod y Dosbarthiadau Meistr yw ysbrydoli pobl ifanc ym mhrydferthwch a rhyfeddod mathemateg a datblygu teimlad o fwynhad yn y pwnc. Maent yn cynnig i ddisgyblion archwilio'n fanwl i destunau mewn mathemateg y tu hwnt i'r cwricwlwm cynradd arferol.

Fformat y sesiwn:

Bydd y sesiynau yn cael eu cyflwyno fel ffrwd fyw gyda phob grŵp o ddisgyblion yn cymryd rhan yn eu hysgol eu hunain, gyda chefnogaeth aelod o staff yr ysgol. Bydd angen i'r athro dosbarth neu arweinydd grŵp yn eich ysgol hwyluso'r sesiwn a helpu'r plant wrth iddynt weithio drwy'r deunydd (bydd deunyddiau ar gael ymlaen llaw). Bydd nifer o ysgolion yn cymryd rhan yn y gweithdai.

Bydd y sesiynau ffrydio byw yn cael eu harwain gan selogion mathemateg (arweinydd y gweithdai Dosbarth Meistr). Fel arfer byddant yn cynnwys cyfleoedd i drafod, holi a rhannu gwaith gyda phawb sy'n ymwneud â'r sesiynau. Dylai pob rhyngweithiad gael ei oruchwylio gan athro neu aelod arall o staff eich ysgol eich hun.

Gobeithiwn y bydd grwpiau ysgol yn rhannu fideo a sain gyda'r Arweinydd Dosbarth Meistr ac ysgolion eraill yn ystod y sesiynau – os na ellir cynnwys unrhyw un o'ch disgyblion yn y ffrwd fideo/sain, rhowch wybod i ni. Bydd disgwyl i bawb sy'n cymryd rhan gadw at [*God Ymddygiad](#) Dosbarthiadau Meistr Ar-lein Cynradd Ri, ac mae'n ofynnol i athrawon sy'n goruchwylio gadw at y cod.

Y platfform a ddefnyddir fydd Teams, a bydd angen gallu cael mynediad ato yn ystod y sesiwn. Bydd RhGMBC yn anfon y manylion angenrheidiol i ysgolion ar gyfer ymuno â'r sesiwn ymlaen llaw. Bydd y ddwy gyfres o bum sesiwn ymlaen

Cyfres 1: 1:15pm – 2:45pm dydd Mawrth 29 Mawrth; Ebrill 5ed a'r 26ain; 3ydd a 10fed o Fai

Cyfres 2: 9:30yb - 11:00yb Dydd Iau 31ain Mawrth; Ebrill 7fed a'r 28ain; Mai 5ed a'r 12fed

Cyfraniad disgyblion:

Hoffem eich gwahodd i nodi grŵp neu ddsbarth o ddisgyblion ym mlwyddyn 5/6 i gymryd rhan mewn Dosbarthiadau Meistr ar y dyddiadau uchod, yn rhad ac am ddim. Ein nod yw cynnwys a herio pob disgybl: o'r rhai sydd eisoes yn llawn cymhelliant ac yn chwilfrydig am fathemateg i'r rhai sydd newydd ddechrau'r daith honno.

Amgaeir llythyr i rieni/gofalwyr, ffurflen ganiatâd a ffurflen enwebu. Y drefn enwebu i'w dilyn yw:

- Rhowch wybod i RhGMBC cyn gynted â phosibl os hoffech dderbyn y cynnig hwn a nodwch pa un o'r ddwy gyfres yr hoffech ei fynychu. Nifer cyfyngedig o lefydd sydd gennym ac rydym wedi gwahodd mwy o ysgolion nag sydd gennym le. Byddwn yn dyrannu'r lleoedd i'r ysgolion cyntaf i ymateb.
- unwaith y bydd eich lle wedi'i gadarnhau nodwch y grŵp neu ddsbarth o ddisgyblion yr hoffech eu henwebu, ac oedolyn i hwyluso'r sesiynau yn eich ysgol;

Masterclass network

- Golygu a dyblygu'r llythyr rhiant/gofalwr a'r ffurflen ganiatâd a'u dosbarthu i rieni/gofalwyr y disgyblion hynny;
- Casglu'r ffurflenni caniatâd myfyrwyr ar ôl eu cwblhau, **gan sicrhau eu bod wedi'u llofnodi gan riant/ofalwr;**
- Dychwelwch y ffurflen enwebu gyda manylion y dosbarth a'r arweinydd/arweinwyr sy'n oedolion at e.w.clode@bangor.ac.uk erbyn **21ain o Fawrth** 2022 fan bellaf.

Gobeithiwn y byddwch yn gallu manteisio ar y cyfle hwn i'ch disgyblion ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich ffurflen enwebu wedi'i chwblhau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau mae croeso i chi gysylltu â mi ar yr e-bost neu'r rhif ffôn isod.

Yr gywir

Francis Hunt

Cydlynnydd Cyfoethogi RhGMBC

F.H.Hunt@swansea.ac.uk 07519 662910